

**AMGUEDDFA  
CYMRU**

**ADOLYGIAD  
BLYNYDDOL**

**2021-22**

**ANNUAL  
REVIEW**

[amgueddfa.cymru](http://amgueddfa.cymru)  
[museum.wales](http://museum.wales)





**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**  
Llun gan Jukebox Collective, partner Dwyllo ar Dreftadaeth  
National Museum Cardiff  
Image shared by Jukebox Collective, Hands on Heritage partner

**Llun y clawr: Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**  
Front cover image: Big Pit National Coal Museum

## RHAGAIR GAN DAVID ANDERSON, CYFARWYDDWR CYFFREDINOL

**Eleni oedd yr ail flwyddyn gron o fyw gyda phandemig Covid-19. Ac eithrio'r ddwy Ryfel Byd, dyma'r cyfnod mwyaf heriol ac eithriadol yn hanes hir Amgueddfa Cymru.**

Diolch o galon i bob aelod o staff, gwirfoddolwr, partner a chymuned sydd wedi ein cynorthwyo i ailagor a chynnal ein gwasanaethau.

Bydd ymroddiad ac ymdrech ein staff a lwyddodd i gadw ein saith amgueddfa a chanolfan gasgliadau ar agor ble bynnag y bo modd yn aros yn y cof. Er gwaethaf cyfyngiadau niferus, croesawyd 674,000 o ymwelwyr i'n hamgueddfeydd, gan gynnig profiadau a rhaglenni a ysbrydolodd – wyneb yn wyneb ac yn ddigidol.

Ar ddechrau'r pandemig, penderfynwyd parhau i ddatblygu ein strategaeth a brand newydd, *Amgueddfa Cymru 2030*.

Mae ein strategaeth yn cefnogi Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a threftadaeth ac iaith gyffredin pobl Cymru. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ac mae'n rhan allweddol o ddiwylliant a hunaniaeth Amgueddfa Cymru.

Er gwaethaf heriau anodd y tair blynedd diwethaf, mae Amgueddfa Cymru wedi dod drwyddi yn gryfach, ac mae gennym gynllun clir er mwyn gweddnwied ein hamgueddfeydd yn ganolfannau ar gyfer cyfranogiad diwyllianol a chyfiawnder cymdeithasol.

Galwch draw, neu ymunwch â ni.

## FOREWORD FROM DAVID ANDERSON, DIRECTOR GENERAL

**This year was the second full year of the Covid-19 Pandemic which, the two World Wars aside, has been the most challenging and extraordinary period in all Amgueddfa Cymru - Museum Wales' long history.**

Diolch yn fawr – thank you – to all staff, volunteers, partners and communities who have helped us to re-open and who sustained our services.

The dedication and commitment of staff who kept our seven museums and collection centre open whenever this was possible, will always be remembered. Despite multiple restrictions, we welcomed over 674,000 visitors to our museums, and delivered inspiring programmes and experiences, in-person and virtually.

At the start of the Pandemic, we made the decision to continue to develop our new strategy and brand *Amgueddfa Cymru 2030*.

Our strategy supports the Wellbeing of Future Generations, and the shared heritage and language of people living in Wales. The Welsh language belongs to everybody in Wales and it plays a key part in Amgueddfa Cymru's culture and identity.

Despite the tough challenges of the last three years, Amgueddfa Cymru is emerging stronger, with a clear plan for the transformation of our museums to become centres for cultural participation and social justice.

We hope you will visit or join us soon.



# 2021-22 DIOLCH O GALON

...i bawb sydd wedi ymweld â ni, ein cefnogi neu gydweithio â ni eleni.

...to everyone who has visited, supported or worked with us this year.

## 5.3

**5.3 miliwn o wrthrychau ac atgofion yng nghasgliadau cenedlaethol celf, hanes a gwyddoniaeth Cymru, fydd yn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.**

5.3 million objects and memories in Wales' national collections of art, history and science used to inspire future generations.

## 579 23,138

**Rhoddodd 579 o wirfoddolwyr 23,138 awr o'u hamser i Amgueddfa Cymru.**

579 volunteers donated 23,138 hours to Amgueddfa Cymru.

## 200

**Cynhaliwyd arddangosfeydd, digwyddiadau a rhaglenni addysg gyda thros 200 o bartneriaid lleol a chenedlaethol.**

Over 200 local and national partners delivered exhibitions, events and learning programmes with Amgueddfa Cymru.

**Hyd yn hyn mae 217 aelod o staff wedi cwblhau ein hyfforddiant llythrennedd carbon dwyieithog.**

217 members of staff have completed our bilingual carbon literacy action training so far.

## 217

## 674,000

**Croesawyd dros 674,000 o ymwelwyr i Amgueddfa Cymru.**

Over 674,000 visitors welcomed to Amgueddfa Cymru.

## 122,000

**Ymgysylltodd dros 122,000 o blant ysgol a myfyrwyr â ni.**

Over 122,000 schoolchildren and students engaged with us.

## 231

**Rydyn ni'n cyrraedd mwy o bobl ar draws y byd gyda phobl o 231 o wledydd ar draws y byd yn ymweld â'n gwefan.**

Our global reach is growing with web visits recorded from 231 countries across the World.

**2.24 miliwn o ymweliadau â'r wefan a thros 187,500 o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.**

2.24 million website visits and over 187,500 social media followers.

## 2.24 187,500

## 23 | 21 | 12

**Benthycwyd 23 eitem newydd o'r casgliad i 21 lleoliad rhyngwladol mewn 12 gwlad gan gynnwys at ddefnydd arddangos ac ymchwil.**

23 new collection loans, including for exhibitions and research, to 21 International venues across 12 countries.

## 1.37

**Codwyd dros £1.37 miliwn trwy unigolion, ymddiriedolaethau, sefydliadau, loteri a darparwyr grantiau.**

Over £1.37 million raised through individuals, trusts, foundations, lottery and grant providers.

## 5000+

**Dros 5,000 o wrthrychau o'n casgliadau ar gael ar-lein i bawb eu mwynhau.**

Over 5,000 objects from our collection made available online for everyone to explore.

## 10

**10 project ymchwil ym meysydd celf, hanes a gwyddoniaeth.**

10 research projects covering art, history and science.

**Gwnaed hyn diolch i gefnogaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Sefydliad Paul Hamlyn, chwaraewyr People's Postcode Lottery a Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhoddion a chyfraniadau gan ein hymwelwyr, ymddiriedolaethau a sefydliadau, noddwyr a chefnogwyr unigol.**

Thanks to support from National Lottery Heritage Fund, Paul Hamlyn Foundation, the players of People's Postcode Lottery and the Welsh Government, as well as donations and gifts from our visitors, trusts and foundations, patrons and individual supporters.





**EICH STORI CHI  
YW EIN STORI NI.**

**YOUR STORY.  
YOUR MUSEUM.**

Amgueddfa Lechi Cymru  
National Slate Museum


**Rydyn ni'n elusen ac yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol a chanolfan gasgliadau, sydd oll wedi'u lleoli ar draws Cymru. Mae ein croeso am ddim diolch i nawdd Llywodraeth Cymru ac rydym yma i bawb o bob cymuned.**

**Ond rydyn ni'n fwy nag adeiladau yn unig. Mae ein hamgueddfeydd yn ganolfannau cymunedol pwysig sy'n ymestyn tu hwnt i'w milltir sgwâr.**

Amgueddfa Cymru is a charity, and a family of seven national museums and one collections centre located across Wales. Our welcome is free, thanks to funding from the Welsh Government and extends to people from all communities.

But we're more than our buildings. Our sites are vital community spaces that reach far beyond their location on a map.

- 1** Amgueddfa Lechi Cymru  
National Slate Museum
- 2** Amgueddfa Wlân Cymru  
National Wool Museum
- 3** Amgueddfa Genedlaethol y Glannau  
National Waterfront Museum
- 4** Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol  
National Collections Centre
- 5** Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru  
St Fagans National Museum of History
- 6** Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd  
National Museum Cardiff
- 7** Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru  
National Roman Legion Museum
- 8** Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru  
Big Pit National Coal Museum



**Mae Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb. Ein nod yw ysbrydoli pawb drwy stori Cymru. Dewch i fod yn rhan o stori Cymru – trwy wirfoddoli, ymuno neu gyfrannu.**

Amgueddfa Cymru belongs to everyone. Play your part in Wales' story: by volunteering, by joining or by donating today.



# STRATEGAETH 2030 STRATEGY 2030



**Dyma ein chwe addewid, i'w gwireddu rhwng nawr a 2030.**

**Trwy ein casgliadau, rhaglenni cyhoeddus a phartneriaethau, byddwn ni'n gweithio gyda phobl Cymru a chymunedau ar draws ein gwlad er mwyn:**

**Cynrychioli pawb**



Make sure that everyone is represented

Here are our Six Commitments until 2030.

We'll work with people and communities across Wales, through collections, public programmes and partnerships, to:

**Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes**



Inspire creativity and learning for life

**Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd**



Help protect and restore nature and our environment

**Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli**



Support well-being through inspirational spaces and experiences

**Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol**



Discover and explore the museum digitally

**Creu cysylltiadau ar draws y byd**



Build global connections





**DELORIS JAMES**

"Take opportunities, make the best of yourself and of life because we only get one life."

Deloris James was born on a tiny island in the Caribbean called Nevis.

"My granny, she was my great grandmother actually, was lovely, she... bought me up until I was ten."

"My biological mother died... when I was about 21 months old, so I didn't know her."

"She [my grandmother] did a bit of everything really... But to remember at one point, she moved us to St Kitts, because there weren't that many jobs on Nevis and she got a job in the sugar cane fields."

"She'd come and pick us up, with a snack, and we would just be on the edge of the field while she was doing her job picking cane."

"I was ten years old... I arrived on 3rd August 1964... we got on a big ship and it was called the SS Sorrento. I would be coming to Cardiff. I remember being on the platform waiting for the train shivering with cold."

"Initially, my parents had a flat in Butetown, Loudoun Square. It wasn't a bad experience. I do remember a couple of the kids saying nasty things, just a couple, most of them were fine."

"I was a very avid reader... I practically lived in the library. I devoured books."

"I went into the school and addressed, in the hall, all the staff, the students, I cooked some Caribbean food for the staff and I took a basket of fruit and veg... and explained what they were, so that was lovely. I enjoy doing that sort of stuff."

"I can say I'm now at the age where I am content with life, I'm not rich, but I am content. I have a job which I enjoy, I have two lovely sons, I have a few very, very close friends, I'm relatively healthy, and as I said, life is good, life is good."

**EDNA HENRY**

**ALEXANDER**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru  
St Fagans National Museum of History



# CYNRYCHIOLI PAWB

**Rydyn ni'n ymgysylltu ag unigolion a chymunedau ar draws Cymru i archwilio be sy'n cyfrif fel diwylliant, ble mae'n digwydd, pwy sy'n ei greu a phwy sy'n ei brofi.**

Lansiwyd arddangosfa *Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes* dan arweiniad Race Council Cymru yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, cyn teithio i Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Wlân Cymru. Mae'r arddangosfa rymus hon yn adrodd straeon dros 40 o bobl o Genhedlaeth Windrush Cymru yn eu geiriau eu hunain.

Mae gwrthrychau a gyfrannir at y casgliad cenedlaethol yn ein helpu i gynrychioli pobl a chymunedau drwy Gymru ben baladr yn well.

Cafodd cloc larwm a ddaeth i'r fei yn Aberfan ar 21 Hydref 1966 ei roi i'r amgueddfa ar

3 Chwefror 2022. Mae'r gwrthrych eiconig yma nawr i'w weld yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn rhan o arddangosiad i gofio Aberfan – un o drychinebau gwaethaf Cymru.

Mae bathodynau a gasglwyd gan fudiad Lesbiaid a Dynion Hoyw yn Cefnogi'r Glowyr 1984/85 yn rhan o'n casgliadau LHDTTC+ sy'n prysur dyfu.

Bydd yr arwydd gwreiddiol a darluniau pensaernïol o Westy'r Vulcan yng Nghaerdydd yn ein helpu i ail-greu'r dafarn boblogaidd yn Sain Ffagan.

# FOR EVERYONE

**We are engaging with individuals and communities across Wales to explore what counts as culture, where it happens, who makes and experiences it.**

*Windrush Cymru – Our Voices, Our Stories, Our History* exhibition, led by Race Council Cymru, started at St Fagans National Museum of History and then toured Big Pit National Coal Museum, National Slate Museum, National Waterfront Museum Swansea and National Wool Museum. This powerful exhibition told the stories of over 40 of the Windrush Generation Cymru in their own words.

Objects donated to the national collection help us to better represent people and communities across Wales.

An alarm clock recovered from Aberfan on 21 October 1966 was donated to the museum on the 3 February 2022. This iconic object is now on display at St Fagans National Museum of History to remember Aberfan - one of Wales' worst disasters.

Badges collected from the Lesbians and Gays Support the Miners movement 1984/85 form part of our growing LGBTQ+ collections.

The original hanging sign from the Vulcan Hotel in Cardiff and architectural drawings will help us interpret the reconstruction of the popular pub at St Fagans National Museum of History.





Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru  
National Roman Legion Museum



## DYSGU A CHREU

**Yn ystod 2021-22, cyrhaeddwyd dros 122,000 o ddysgwyr trwy ein rhaglenni ac adnoddau dwyieithog i ysgolion, yn rhithiol ac wyneb yn wyneb, ym mhob un o'm hamgueddfeydd. Datblygwyd adnoddau addysg gan gynnwys adnoddau ar gyfer cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill gydag Addysg Oedolion Cymru.**

Er mwyn helpu plant a phobl ifanc i adfer wedi'r pandemig, trefnwyd rhaglen wych o weithgareddau wyneb yn wyneb a digidol ar gyfer ymgyrch Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru (y Ffed). Cafodd 1,000 o Becynnau Creadigol dwyieithog eu rhoi i deuluoedd ar draws y wlad trwy ein partneriaid cymunedol a rhwydwaith rhaglen Cyfuno.

Enillodd ein cyfres o ddigwyddiadau Amgueddfa Dros Nos: Gartref wobr y Digwyddiad Digidol Cyfeillgar i Deuluoedd Gorau yng ngwobrau Plant Mewn Amgueddfeydd. Ymhlith y themâu

hyd yn hyn mae Deinosoriaid, y Gofod, y Rhufeiniaid a Byd Natur, gyda thros 4,000 o gyfranwyr yn eu mwynhau.

Trwy ein rhaglenni ieuenctid cyffrous, cafodd pobl ifanc gyfrannu at greu arddangosfeydd *Yfory drwy Lygaid Ddoe* yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru a *Trawsnewid* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Drwy gydol y flwyddyn roedd yn bleser gennym gefnogi ein gwirfoddolwyr – rydym yn hynod ddiolchgar am eu cyfraniad at ein gwaith. Mae rhaglen brentisiaeth Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru yn parhau i greu tywyswyr glofa newydd.

## LEARN AND CREATE

**Throughout 2021-22 we reached over 122,000 learners as we delivered our bilingual programmes and resources for schools both virtually and face to face at all our museums. We developed learning resources, including those for English for Speakers of Other Languages with Adult Learning Wales.**

To help children and young people recover from the pandemic, we arranged a fantastic programme of in-person and digital activities for the Welsh Government's Summer of Fun campaign, in partnership with the Federation of Museums and Art Galleries of Wales (the Fed). 1,000 bilingual Creative Packs were given to families across the country through our community partners and Fusion network.

Our Museum Sleepover: At Home series of events was awarded Best Kids in Museums Family Friendly Digital Activity. With themes ranging from Dinosaurs and Space to Romans

and Natural World, over 4,000 participants have enjoyed the events so far.

Exciting youth programmes saw young people helping develop *The Future has a Past* at St Fagans National Museum of History and *Trawsnewid* at National Waterfront Museum.

Throughout the year we were delighted to support our volunteers and are incredibly grateful for their contribution to our work. The apprenticeship programme at Big Pit National Coal Museum continued to produce new miner guides.



“

**Wnes i benderfynu cymryd rhan ym mhroject Arddangosfa Gobaith achos er nad oedden ni'n gallu bod gyda'n gilydd, o leia roedden ni'n gallu creu pethau gyda'n gilydd.**

*Gwirfoddolwr, Arddangosfa Gobaith*

*I decided to take part in the Exhibition of Hope project, because I felt if we couldn't be together during the pandemic, at least we could all make things together.*

*Volunteer, Exhibition of Hope*

“

**Mae'r bwrdd "Dwi ddim yn credu'r peth" yn fy atgoffa i o fy nheulu a gartref. Rhywle i eistedd a rhannu eich problemau. Roedd fy nheulu bob amser yn ymgasglu o gwmpas y bwrdd i fynd i'r afael â thrafferthion y dydd. Roedd yr arddangosfa hon yn cynnig cyfle i ni fynd yn ôl mewn amser, pan oedd bywyd yn symlach.**

*Cyfrannwr, Ein Lle Ni – Dathlu Blaenau Gwent*

*The "I don't believe it table" reminds me of family and home. A place where you would sit down and share your troubles. Our family always congregated around the table to sort out the days troubles. This exhibition allowed us to go back to times when life seemed so uncomplicated.*

*Participant, Our Place - Celebrating Blaenau Gwent Exhibition*

“

**Ffordd ardderchog i'r plant brofi arteffactau a straeon bywyd go iawn yn ystod y cyfnod heriol hwn.**

*Cyfrannwr, ymweliadau rhithiol i ysgolion*

*A brilliant way for the children to be able to experience real life artefacts and stories in these challenging times.*

*Participant, School virtual visits*

“

**Mae ein cwrs llythrennedd carbon wedi agor fy llygaid i amryw bethau; fy helpu i dalu mwy o sylw i'r hyn dwi'n ei wneud o ddydd i ddydd ac wedi rhoi hwb i fi roi newidiadau ar waith i leihau fy effaith carbon.**

*Aelod o staff*

*Our carbon literacy training course opened my eyes to a few things I hadn't realised, helped me to pay a little more attention to my daily activities, and prompted me to make adjustments to curb my carbon impact.*

*Member of staff*

“

**Diolch yn fawr! Rydyn ni wedi cael penwythnos wrth ein bodd yn ymuno â'n digwyddiad dros nos rhithiol cyntaf o Abu Dhabi, ac wedi cael cyfle i ymarfer ein Cymraeg hefyd!**

*Cyfrannwr, digwyddiad Amgueddfa Dros Nos: Gartref*

*Diolch yn fawr! We have had the best weekend at our first virtual sleepover joining in from Abu Dhabi and being able to practice our Welsh skills too!*

*Participant, Museum Sleepover: at Home event*

“

**Dwi'n teimlo bo ni'n mynd rhywle, yn newid pethau. Dwi ddim yn siŵr eto beth fydd hyn yn edrych fel ond mae'n gyffrous.**

*Un o Gynhyrchwyr Amgueddfa Cymru (grŵp o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n cydweithio er mwyn datblygu gweithgareddau yn yr amgueddfa)*

*I feel like we're going somewhere, changing things. I'm not sure yet what that will look like, but I'm excited.*

*Amgueddfa Cymru Producer member (a group of young people aged 16-25 who collaborate to develop activities at the museum)*

**Gaeaf Llawn Lles, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**  
*Winter of Wellbeing, National Roman Legion Museum*







# BLAENORIAETHU'R BLANED



**Yn 2019 gwnaeth Amgueddfa Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Mae'r perygl i'r blaned oherwydd newid hinsawdd yn cynyddu, ac mae'n effeithio ar bob un ohonom yn hen ac yn ifanc. Fel amgueddfa, rydym yn ymateb trwy sicrhau fod ein gwaith yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd.**

Mae gennym Gynlluniau Rheoli Adfer Tir a Natur a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer pob un o'n safleoedd gyda'r nod o ddiogelu, cadw, gwella ac adfer amrywiaeth naturiol ein blodau a phlanhigion. Mae ein casgliadau hanes natur a gwaith ymchwil parhaus yn ein helpu i godi ymwybyddiaeth o fyd natur ac effeithiau'r argyfwng hinsawdd.

Rydyn ni'n hyrwyddo arferion cynaliadwy trwy ein rhaglen arddangosfeydd, digwyddiadau ac addysg. Rydyn ni wedi mabwysiadu polisi ynni

newydd er mwyn gwella'n heffeithlonrwydd ynni ac rydym yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Ynni Cymru, WRAP Cymru, Ymddiriedolaeth Llythrennedd Carbon, Cynnal Cymru a Sustrans.

Erbyn mis Mawrth 2022, roedd 217 o'n staff wedi cwblhau ein hyfforddiant llythrennedd carbon dwyieithog mewnol, sy'n achrededig gan yr Ymddiriedolaeth Garbon. Ym mis Chwefror 2022, lanswyd Olion, gŵyl ddigidol yn cynnwys sgysiau a digwyddiadau ar newid hinsawdd a chynaliadwyedd.

## PUT THE PLANET FIRST

**In 2019 Amgueddfa Cymru declared a global climate and ecological emergency. The threat to the planet caused by climate change is increasing and it affects all of us, old and young. As a museum, we are responding by ensuring our work helps to protect the environment.**

Our Land and Nature Recovery Management Plan and Biodiversity Action Plans for each of our sites, aim to protect, conserve, enhance and restore our diverse natural flora and fauna. Our natural science collections and on-going research helps us to raise awareness of the natural world and the impacts of the climate crisis.

We're promoting sustainable practice through our exhibitions, events and learning programmes. We have adopted a new energy policy to improve energy efficiency and work

closely with the Welsh Energy Service, WRAP Cymru, Carbon Literacy Trust, Cynnal Cymru and Sustrans.

217 members of our staff completed our bilingual in-house carbon literacy action training, accredited by the Carbon Trust, by March 2022. We launched Olion – Footprints in February 22 a digital festival featuring talks and events on climate change and sustainability.





## CEFNOGI LLES

**Yn 2021-22 datblygwyd ystod o weithgareddau i helpu gydag adferiad Cymru yn sgil pandemig Covid-19, gyda'n hamgueddfeydd yn dal i fod yn noddfa i bobl.**

Cynhaliwyd rhaglen a ddatblygwyd gyda phobl ifanc ar draws ein hamgueddfeydd mewn partneriaeth â'r Ffed ar gyfer Gaeaf Llawn Lles, menter a noddwyd gan Lywodraeth Cymru. Cysylltodd ein rhaglen Cysur mewn Casglu bobl mewn cartrefi gofal a'r rheini all ddioddef ynysu cymdeithasol gyda chasgliadau cenedlaethol Cymru, oedd yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig.

Rydyn ni'n parhau i weddnewid ein hamgueddfeydd a'n profiadau er mwynhad pobl ar draws Cymru. Yn 2021, cynhaliwyd gweithgareddau ymgynghori â'r gymuned yn Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd gan ofyn i bobl sut yr hoffent weld yr amgueddfeydd yn datblygu yn y dyfodol.

Roeddem yn bartner allweddol balch yn y cais am statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ar gyfer tirwedd lechi gogledd-orllewin Cymru. Diolch o galon i'r holl staff, gwirfoddolwyr, partneriaid a chymunedau am eu rhan yn y llwyddiant.

Parhawyd i wella mynediad, gan ddatblygu ein rhaglen ddigidol a gwaith cynnal a chadw hanfodol diolch i nawdd cymorth grant Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith parhaus hwn yn allweddol er mwyn sicrhau y gall ein hamgueddfeydd agor yn hwylus ac er mwyn gwella profiad ein hymwelwyr.

## SUPPORT WELLBEING

**In 2021-22 we developed a range of activities to help support Wales' recovery from the Covid-19 pandemic, with our museums continuing to offer spaces of sanctuary.**

We offered a programme, developed with young people and in partnership with the Fed, across our museums for the Welsh Government's Winter of Wellbeing funded initiative. Our Objects of Comfort project connected people in care homes and those at risk of social isolation with Wales's national collections. This became especially important during the pandemic.

We continue to transform our museums and experiences for people to enjoy across Wales. In 2021 we ran community consultation activities at National Slate Museum and National Museum Cardiff asking people how they would like to see these museums develop in future.

We're proud to have been a key partner in the successful bid for Unesco World Heritage Site status for the slate landscape of northwest Wales. Diolch o galon – thank you – to staff, volunteers, partners and communities for their work to achieve this.

We made progress on improving access, developing our digital programme and essential maintenance thanks to Welsh Government grant-in-aid funding. This on-going work is essential for the smooth running of our museums and to improve visitor experience.







## CREU PROFIADAU DIGIDOL

**Defnyddiodd rhagor o bobl ein gwasanaethau digidol yn 2021-22 – cafwyd 500,000 o ymweliadau ychwanegol â'n gwefan, o gymharu â chyn y pandemig.**

Parhawyd i ddatblygu project digideiddio Celf Gymunedol ac ymgynghori â phobl drwy ddigwyddiadau, grwpiau ffocws a gweithdai ar draws Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y gall rhagor o bobl gael at ein casgliadau cenedlaethol ar-lein ac ymgysylltu â nhw.

Mae ein cylchgrawn celfyddydau digidol, *Cynfas*, wedi parhau i danio sgysiau am y casgliad celf cenedlaethol. Trwy gyfraniadau rheolaidd gan bobl, cymunedau a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru, adeiladwyd teimlad o gydberchnogaeth, a chyrhaeddwyd cynulleidfaoedd newydd ar draws Cymru.

Lansiwyd cyfrif Bloedd AC ar Instagram 2021. Y Fforwm Ieuenctid a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru yw Bloedd\_AC; casgliad o bobl ifanc sy'n ymgysylltu ag Amgueddfa Cymru ac yn cydweithio i ddatblygu gweithgareddau, digwyddiadau a mwy.

## CREATE DIGITAL EXPERIENCES

**More people used our digital services in 2021-22, with 500,000 additional visits to our website, than before the pandemic.**

We continued to develop the Community Art digitisation project and consulted with people through events, focus groups and workshops across Wales. This will ensure more people can access and engage with our online national collection.

*Cynfas*, our digital arts magazine, continued to encourage conversations about the national art collection. Regular features from people, communities and Amgueddfa Cymru Producers helped to build a shared ownership and reached new audiences across Wales.

On our social platforms, Bloedd AC Instagram was launched in 2021. The Youth Forum and Amgueddfa Cymru Producers make up Bloedd\_AC; a collective of young people that engage with Amgueddfa Cymru. They collaborate to develop activities, events and more.





## AR DRAWS Y BYD

**Rydyn ni'n parhau i ddatblygu a meithrin cysylltiadau â phobl yng Nghymru ac ar draws y byd.**

Mae diwylliant yn chwarae rôl allweddol yn economi Cymru, gan ddenu miliynau o ymwelwyr i'n gwlad. Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol allweddol eraill, rydyn ni'n ymroddedig i adrodd stori Cymru i gynulleidfa fyd-eang.

Rydyn ni'n falch o barhau ein perthynas hirdymor â Japan. Arwyddwyd Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth ag Amgueddfa Gelf Llywyddiaeth Oita yn Japan ac Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon. Datblygwyd perthynas ag amgueddfa Für Natur ym Merlin, amgueddfeydd yn Affrica ac arweinwyr amgueddfa yng Nghyfandiroedd America. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid Celtaidd ac eraill i ddatblygu ein rhaglen Hawliau Diwylliannol, Democratiaeth Ddiwylliannol.

Trwy gydol 2021-22, cafodd partneriaethau ar gyfer benthyciadau ymchwil hirdymor eu cynnal gyda chydweithwyr ar draws y byd. Aeth 23 benthyciad casgliad newydd i 21 o leoliadau rhwngwladol mewn 12 gwlad gan gynnwys Awstralia, Gwlad Belg, Denmarc, Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon, yr Eidal, Japan, yr Iseldiroedd, Sbaen, Sweden ac UDA.

Ar gyfer ein digwyddiadau Amgueddfa Dros Nos: Gartref, datblygwyd partneriaethau rhwngwladol newydd er mwyn cyd-gynhyrchu cynnwys gyda'r Colisëwm yn Rhufain, Jabulani Safari yn Ne Affrica ac Amgueddfa Royall Tyrell yng Nghanada.

## ACROSS THE WORLD

**We continue to build and develop connections with people in Wales and across the world.**

Culture plays a vital role in the Welsh economy, attracting millions of visitors to Wales. Working with the Welsh Government and other key national partners, we're committed to tell the story of Wales to an international audience.

We're proud to continue our long-standing relationship with Japan. We've signed a Memorandum of Understanding with the Oita Prefectural Art Museum, Japan, and National Museum Ireland. We've developed relationships with Für Natur in Berlin, museums in Africa, and museum leaders in the Americas. We continue to work with Celtic and other partners to develop our Cultural Rights, Cultural Democracy programme.

Throughout 2021-22 we maintained partnerships for long-term research loans with colleagues all around the world and had 23 new collection loans that went to 21 International venues across 12 countries, including Australia, Belgium, Denmark, France, Germany, Ireland, Italy, Japan, Netherlands, Spain, Sweden and the USA.

For our Museum Sleepover: At Home series of events we developed new international partnerships to co-create content with the Coliseum in Rome, Jabulani Safari in South Africa and Royall Tyrell Museum in Canada.





# GWIREDDU EIN HADDEWIDION

**Tu ôl i'r llenni, mae llawer o waith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau y gallwn wasanaethu'r cyhoedd a gofalu am ein casgliadau a'n gofodau yn gyfrifol.**

Llwyddwyd i agor ein hamgueddfeydd yn ddiogel a chroesawu dros 670,000 o ymwelwyr yn ystod 2021-22, diolch i holl ymdrechion y staff, gwirfoddolwyr, partneriaid ac ymwelwyr.

A ninnau'n elusen, rydym yn dibynnu ar gyfraniadau a nawdd i gefnogi ein gwaith eang. Mae rhoddion, bach neu fawr, yn helpu i sicrhau fod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb. O ganlyniad i'n gwaith codi arian, gallwn gynnal projectau newydd a chyffrous ar draws Amgueddfa Cymru.

Trwy gymorth grant Llywodraeth Cymru, mae projectau cyfalaf sylweddol ar ein safleoedd wedi helpu gyda gwaith cynnal a chadw hanfodol, rhaglenni digidol a mynediad.

Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chynnig hyfforddiant a datblygiad i gefnogi staff ac annog cyfleoedd teg.

Rydym yn dathlu, yn cryfhau ac yn defnyddio ein Cymraeg ac yn gweithio i fabwysiadu iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn drydedd iaith. Datblygwyd ystod o gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg, mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, bu'n rhaid i'n staff a gwirfoddolwyr addasu i wynebu heriau newydd a gwnaethpwyd hyn mewn modd hyblyg, proffesiynol ac arloesol.

# DELIVERING OUR COMMITMENTS

**There is a huge amount of work that takes place behind the scenes to make sure we deliver our services for the public and look after our collections and spaces responsibly.**

We were able to safely open our museums and welcome over 670,000 visitors throughout 2021-22, due to the efforts of staff, volunteers, partners and visitors.

As a charity, we rely on donations and funding to support the breadth of our work. Donations, small or large, help ensure Amgueddfa Cymru belongs to everyone and is here for everyone to use. As a result of fundraising, we can deliver new and exciting projects across Amgueddfa Cymru.

Significant capital projects at our sites, funded by Welsh Government grant-in-aid, helped with essential maintenance, digital programmes and access.

We're determined to tackle inequalities and provide training and development to help support staff and encourage equity of opportunity.

We celebrate, strengthen and use the Welsh language and are working on adopting British Sign Language as our third language. We have developed a range of Welsh learning opportunities for staff, in partnership with the National Centre for Learning Welsh.

As the year progressed our staff and volunteers had to adapt to the new challenges and did so with flexibility, professionalism, and innovation.





# UCHAFBWYNTIAU'R ARDDANGOSFEYDD

Agorodd nifer o arddangosfeydd eraill hefyd ar draws ein hamgueddfeydd yn ystod 2021 a 2022. Gweithiodd y staff, gwirfoddolwyr, Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru a phartneriaid yn ddygn er mwyn sicrhau ail-agor arddangosfeydd a fu ar gau oherwydd Covid-19, gan gynnwys *Bywyd Richard Burton* ac *Artes Mundi 9* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac *Yfory drwy Lygaid Ddoe* yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn:

*Rheolau Celf?*, *Llun am Lun: Casgliad David Hurn*, ac ôl-troed ffosil Lily yn **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**. Arddangosfa Gobaith yn **Amgueddfa Wlân Cymru** a **LLECHI – Statws Treftadaeth y Byd** yn **Amgueddfa Lechi Cymru**. *Y Wisg Goch, Mwydod! a Trawsnewid* yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**.

Agorwyd *Yfory drwy Lygaid Ddoe*, *Ein Lle Ni – Dathlu Blaenau Gwent* a Chanmlwyddiant yr Urdd yn **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**; *Beth am Gynnau Tân* yn **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru** a *Merched Tomen*

a *Gwrthrychau o Flaenafon* yn **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**. Teithiodd *Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes* i nifer o'n hamgueddfeydd.

Mewn partneriaeth ag **Oriel y Parc**, Tyddewi cynhaliwyd *Mwydod! a Tir a Môr*.

Gobeithio y cawsoch gyfle i ymweld â ni, ac y gallwch ymuno â ni cyn hir am brofiadau newydd. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

## EXHIBITION HIGHLIGHTS

A changing programme of exhibitions opened during 2021 and 2022. Staff, volunteers, Amgueddfa Cymru Producers and partners worked hard to ensure that exhibitions that were disrupted by Covid-19 were able re-open, including *Becoming Richard Burton* and *Artes Mundi 9* at National Museum Cardiff, and *The Future has a Past* at St Fagans National Museum of History. Here are just a few highlights across the year.

*The Rules of Art?*; *David Hurn: Swaps*; and *Lily's fossil footprint* at **National Museum Cardiff**. *Exhibition of Hope* at **National Wool Museum** and *SLATE – World Heritage Status* at **National Slate Museum**. *The Red Dress; Wriggle; and Trawsnewid* at **National Waterfront Museum Swansea**.

*Our Place – Celebrating Blaenau Gwent*; and *Urdd Centenary* opened at **St Fagans National Museum of History**; *Firestarter* at **National Roman Legion Museum** and *Tip Girls* and

*Objects of Blaenavon* at **Big Pit National Coal Museum**. *Windrush Cymru – Our Voices, Our Stories, Our History* opened across several of our museums.

In partnership with **Oriel y Parc**, St Davids we displayed *Wriggle* and *Land/Sea*.

We hope you were able to visit and hope you can join us soon for new experiences. Visit our website for more information.



# AMGUEDDFA CYMRU



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

**Rhif elusen: 525774**  
Charity number: 525774